



Diogelwch Gwirfoddoli - I unigolion

Cyflwyniad

Dylai rôl wirfoddoli fod yn wobrwyl, pleserus a diogel. Mae gennych chi a'r sefydliad rydych yn gwirfoddoli iddo, gyfrifoldebau i sicrhau bod y rôl a gyflawnir gennych yn ddiogel i chi, aelodau'r cyhoedd a'r sefydliad. Nod yr wybodaeth hon yw amlygu rhai o'r pethau y mae angen i chi eu hystyried i gadw pawb yn ddiogel, a rhoi syniad i chi o'r hyn ddylai'r sefydliad rydych yn gwirfoddoli iddo, gael ar waith. Mae diogelwch yn cwmpasu ystod o bynciau yn cynnwys diogelwch rhag cam-drin, anaf, colled ariannol, diogelu data, ac ymglyfreitha.

Eich cyfrifoldebau

- Sicrhau eich bod yn gwbl ymwybodol o'r hyn mae eich rôl yn ei gynnwys.
- Os ydych yn ansicr neu'n anhapus am unrhyw ran o'r rôl wirfoddoli, trafod hynny â'r rheolwr gwirfoddoli.
- Bod yn agored a gonest am eich cefndir a phrofiad.



- Mae rhai rolau gwirfoddoli yn dod gyda llawer o gyfrifoldeb a gofynion sy'n helpu i gadw pawb yn ddiogel. Sicrhau eich bod yn deall y rhain yn llwyr ac yn gyfforddus â nhw.
- Sicrhau eich bod yn glynu at bolisiau a gweithdrefnau'r sefydliad, os oes gennych bryderon, codi nhw â'ch rheolwr gwirfoddoli.

Cyfrifoldebau'r Sefydliad Gwirfoddoli

- Sgrinio gwirfoddolwyr i sicrhau addasrwydd, gallai hyn gynnwys gwiriadau DBS, geirdaon, agweddau a chredoau. Mae hyn yn arfer dda ac yn helpu i sicrhau eich bod yn addas ar gyfer y rôl.
- Darparu hyfforddiant digonol i ganiatáu i'r rôl gael ei chyflawni'n ddiogel ac effeithiol.
- Asesu risg y gweithgaredd gwirfoddoli a'ch gwneud yn ymwybodol o'r hyn sydd angen i chi ei wneud i gadw'n ddiogel.
- Sicrhau bod yswiriant yn ei le.
- Sicrhau bod polisiau priodol ar waith yn cynnwys Diogelu, Polisi Gwirfoddoli, GDPR/Diogelu Data, Cydraddoldeb, Cyfrinachedd ac Iechyd a Diogelwch. Dylai'r rhain fod ar gael i chi a dylech lynu atynt bob amser.



Prosiect amlasiantaethol yw

Cymorth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg

sy'n creu adnoddau a rennir i ddatblygu gwybodaeth gwirfoddolwyr sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr a'r gwaith o'u rheoli a chydlynu ar draws ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Ariennir gan Gronfa Adfer Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru.

Partneriaid y prosiect yw:

Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cyngor Abertawe, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe a Phartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.

Am ragor o wybodaeth, ewch i:

www.westglamorgan.org.uk/wgvs